Mae NICE wedi asesu'r system MiniMed Paradigm Veo a'r system Vibe a G4 PLATINUM CGM ar gyfer rheoli lefelau glwcos yn y gwaed mewn diabetes math 1, er mwyn helpu'r GIG i benderfynu a ddylid eu defnyddio.

Yn y systemau hyn, gosodir synhwyrydd o dan y croen i fesur lefelau'r glwcos yn barhaus ac mae pwmp inswlin yn cyflenwi inswlin yn barhaus. Mae canlyniadau lefelau'r glwcos yn helpu i fonitro faint o inswlin sydd ei angen.

Mae NICE wedi argymell y system MiniMed Paradigm Veo ar gyfer pobl sy'n profi cyfnodau hypoglymcemig yn aml neu'n ddirybudd, sy'n eu gwneud yn ofidus. Dylai tîm gofal iechyd sydd â phrofiad o ddefnyddio'r system hon oruchwylio'r defnydd ohono. Dim ond os yw'r canlynol yn gymwys y dylid defnyddio'r system:

- Mae'r unigolyn neu ei ofalwr yn:
    - cytuno i ddefnyddio'r synwyryddion am o leiaf 70% o'r amser
    - deall sut i'w ddefnyddio ac mae ganddynt y gallu corfforol i ddefnyddio'r system
    - meddu ar raglen addysg strwythuredig ar ddeiet a ffordd o fyw, ac yn defnyddio gwasanaethau cynghori pan fyddant yn ei ddefnyddio.
- Mae'r unigolyn yn profi llai o gyfnodau hypoglymcemig ar ôl dechrau ei ddefnyddio.

Ni wnaeth NICE argymell y systemau Vibe a G4 PLATINUM CGM oherwydd bod angen mwy o dystiolaeth.

ISBN: 978-1-4731-1836-2